Trosolwg o ganlyniadau cymwysterau UG a Safon Uwch yng Nghymru – Haf 2019

Yr haf hwn, gwelwyd cyfnod olaf dyfarnu'r cymwysterau newydd. Bellach mae 29 cymwyster UG a Safon Uwch newydd sydd wedi eu datblygu ar gyfer dysgwyr ac wedi eu sefyll ganddynt yng Nghymru. Rydym wedi monitro'r ffordd y mae CBAC wedi cyflwyno'r cymwysterau hyn yn fanwl ac rydym yn hyderus bod y safonau wedi eu cynnal.

Penawdau

1. Canlyniadau Safon Uwch yng Nghymru'n i fyny.
2. Mae canlyniadau cymwysterau UG yng Nghymru'n pahau i fod yn sefydlog.
3. Mae nifer cyffredinol y cymwysterau UG a Safon Uwch a gymerwyd wedi gostwng eto eleni. Er mwyn ystyried hyn, rydym wedi cynnwys nifer y myfyrwyr sydd wedi cyflawni pob gradd, yn ogystal â'r canrannau yn y trosolwg hwn.
4. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli newidiadau cymharol fach yn y canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn oherwydd y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn y niferoedd sy'n cymryd y cymwysterau.

Canlyniadau Safon Uwch: Cymru

O gymharu â chanlyniadau 2018:

- mae'r gyfran sy'n derbyn A* i fyny 0.4 o bwyntiau canran i 9.1%
- mae'r gyfran sy'n derbyn A* neu A i fyny 0.7 o bwyntiau canran i 27.0%
- mae'r gyfran sy'n derbyn A* i E i fyny 0.2 o bwyntiau canran i 97.6%

Canlyniadau Safon Uwch 2015-2019 (canran gynyddol)

	A*	A*-A	A*-E
2019	**9.1**	**27.0**	**97.6**
2018	8.7	26.3	97.4
2017	8.3	25.0	97.7
2016	6.6	22.7	97.3
2015	7.3	23.1	97.3

Ffynhonnell: JCQ

Canlyniadau Safon Uwch 2015-2019 (nifer y graddau a ddyfarnwyd)

	A*	A*-A	A*-E	Nifer a safodd
2019	**2,876**	**8,512**	**30,716**	**31,483**
2018	2,815	8,523	31,606	32,445
2017	2,749	8,321	32,523	33,294
2016	2,351	8,080	34,564	35,537
2015	2,360	8,324	35,061	36,034

Ffynhonnell: JCQ

Mae canrannau cyffredinol y graddau Safon Uwch a ddyfarnwyd yng Nghymru wedi codi. Er bod y canrannau sy'n cyflawni'r graddau hyn wedi cynyddu, mae'n bwysig ystyried y newid yn y niferoedd sy'n sefyll y cymwysterau eleni. Mae nifer gwirioneddol y graddau a ddyfarnwyd yn A *, A * ac A, ac A * i E yn weddol sefydlog, gyda sifftiau bach y byddem yn eu disgwyl a gellir ystyried hynny'n amrywiad arferol.

Canlyniadau Cymwysterau UG: Cymru

O gymharu â chanlyniadau 2018:

- mae'r gyfradd sy'n derbyn A i lawr 0.1 o bwyntiau canran i 20.3%
- mae'r gyfradd sy'n derbyn A i E yn aros yr un peth, 90.0%

Canlyniadau Cymwysterau UG 2015-2019 (canran gynyddol)

	A	A-E
2019	**20.3**	**90.0**
2018	20.4	90.0
2017	19.1	88.9
2016	18.0	88.3
2015	16.2	86.8

Ffynhonnell: JCQ

Canlyniadau Cymwysterau UG 2015-2019 (nifer o raddau a ddyfarnwyd)

	A	A-E	Nifer a safodd
2019	**8,041**	**35,695**	**39,646**
2018	8,737	38,635	42,915
2017	8,825	40,984	46,127
2016	8,831	43,384	49,144
2015	8,549	45,805	52,771

Ffynhonnell: JCQ

Mae'r ganran gyffredinol o raddau cymwysterau UG a ddyfarnwyd mewn A ac E yng Nghymru wedi gostwng rhywfaint. Fodd bynnag, fel gyda chanlyniadau Safon Uwch, mae angen ystyried y newidiadau hyn yng nghyd-destun newid yn y niferoedd sy'n sefyll y cymwysterau hyn.

Mewn rhai pynciau UG a Safon Uwch mae'r perfformiad wedi gwella, ond mewn eraill mae wedi gostwng. Mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd bod y nifer a'r amrywiaeth o fyfyrwyr sy'n cymryd pob pwnc yn amrywio o un flwyddyn i'r llall.

Gosod safonau mewn cymwysterau UG a Safon Uwch yn 2019

Mae'r ymagwedd tuag at ddyfarnu yr haf hwn wedi bod yn gyson â threfniadau sydd wedi eu sefydlu'n dda er mwyn sicrhau bod safonau wedi eu gosod a'u cynnal yn briodol. Mae'n sicrhau bod amrywiaeth mewn canlyniadau ar y lefel genedlaethol wedi ei gyfyngu; mae hyn yn amddiffyn safonau ac yn sicrhau tegwch i fyfyrwyr, sy'n arbennig o bwysig pan fydd cymwysterau'n newid. Pan fydd newidiadau'n digwydd, mae mwy o amrywioldeb fel arfer mewn canlyniadau ysgolion a cholegau unigol.

Mae byrddau arholiadau wedi defnyddio data i gynhyrchu disgwyliadau'n seiliedig ar gyrhaeddiad blaenorol myfyrwyr ar lefel TGAU. Os yw'r garfan sy'n cymryd pwnc eleni yn debyg, yn nhermau ei pherfformiad yn y gorffennol ar lefel TGAU, i'r garfan a gymerodd y pwnc y llynedd (ac nad oes unrhyw beth arall i'w weld wedi newid), y disgwyliad yw y bydd canlyniadau'r graddau ar gyfer y ddwy garfan yn debyg. Fodd bynnag, ni chaiff y disgwyliadau ystadegol hyn eu defnyddio ar eu pen eu hunain. Mae arholwyr uwch yn adolygu gwaith myfyrwyr wrth ffin y radd allweddol ac yn eu cymharu â'r safon a osodwyd yn y gyfres flaenorol er mwyn sicrhau ei fod yn briodol. Os ydynt yn barnu nad ydyw, byddant yn symud ffin y radd i farc sy'n adlewyrchu safon debyg o waith. Mae hyn yn egluro paham y gall ffiniau graddau newid o un gyfres o arholiadau i'r llall.

Nifer y cymwysterau a gymerwyd yng Nghymru

Ar cymwysterau UG a Safon Uwch, mae'r nifer o gymwysterau a gymerwyd yng Nghymru wedi gostwng eto eleni. Ar lefel UG, mae nifer y cymwysterau a gymerwyd wedi gostwng 7.6% i 39,646 o gymharu â 2018. O ran Safon Uwch, mae nifer y cymwysterau a gymerwyd yn 2018 3.0% yn is sef 31,483 o gymharu â 2018.

UG a Safon Uwch 2015-2019: Nifer y cymwysterau a gymerwyd yng Nghymru

	UG	Safon Uwch
2019	**39,646**	**31,483**
2018	42,915	32,445
2017	46,127	33,294
2016	49,144	35,537
2015	52,771	36,034

Ffynhonnell: JCQ

Gallai'r gostyngiad hwn fod yn cael ei achosi gan nifer o ffactorau:

- poblogaeth lai o faint yn y grwpiau oed perthnasol, yn lleihau nifer y myfyrwyr allai ddewis mynediad i'r cymwysterau hyn;
- gostyngiad yn nifer cyfartalog y cymwysterau a gymerir gan fyfyrwyr; a
- cynnydd o ran myfyrwyr sy'n dewis astudio cymwysterau galwedigaethol, mynd i gael hyfforddiant neu ddechrau prentisiaethau.

Er mwyn deall hyn yn well, rydym wedi diweddaru peth gwaith yr aethom i'r afael ag ef y llynedd oedd yn edrych ar newidiadau i'r boblogaeth yng Nghymru. Roeddem eisiau gweld sut roedd y nifer o fyfyrwyr sy'n gallu dewis astudio arholiadau UG a Safon Uwch yng Nghymru o bosibl yn newid. Rydym wedi diweddaru blog y llynedd **yma**.

Mae ein dadansoddiad diwygiedig yn awgrymu bod gostyngiadau yn y boblogaeth 17 ac 18 oed yng Nghymru yn parhau i fod yn brif reswm dros y gostyngiad o ran mynediadau i gymwysterau UG a Safon Uwch. Fe allai fod ffactorau eraill, fodd bynnag, oedd yn cyfrannu at y gostyngiadau o ran mynediadau, yn arbennig yn achos pobl ifanc 17 oed. Dangosodd y data i ni fod llai ymysg pobl ifanc 17 oed yn cymryd pedwar neu fwy o bynciau UG, gyda mwy o ddysgwyr yn dewis cymryd tri neu lai. Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc 18 oed yn cymryd tri phwnc Safon Uwch ynghyd â'r Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch a'r gyfradd o bobl ifanc 18 oed sy'n cymryd o leiaf un pwnc lefel UG wedi gostwng hefyd, sy'n helpu egluro pam fod mynediadau UG wedi gostwng yn gyflymach na mynediadau Safon Uwch.

Nodi: mae data 2019 yn un dros dro ac yn destun newid yn dilyn diwrnod canlyniadau TGAU.

Gwybodaeth bellach

Caiff canlyniadau llawn UG a Safon Uwch eu cyhoeddi gan **JCQ**. Rydym wedi cyhoeddi inffograffeg am **ganlyniadau** UG a Safon Uwch eleni.